# Trail Trywydd 1 & 2

**TRO TREFRIW 1** - Mae Tro 1 yn dilyn y llwybr tarmac i gerddwyr a beics o Gofeb Rhyfel Trefriw (gyferbyn â'r Felin Wlân) at Bont Gower, y bont grog dros y Conwy ger Llanrwst. Tro hawdd i'r rheiny sydd am gerdded o Drefriw i'r afon, neu sydd am fynd i Lanrwst neu i orsaf rheilffordd Gogledd Llanrwst. Mae'r llwybr yn addas ar gyfer cadeiriau gwthio a chadeiriau olwyn. **Pellter: 1.6km / 1mi**



**TRO TREFRIW 2** - Mae Tro 2 yn dechrau yn yr un lle â Thro 1, sy'n llwybr byr i gerddwyr a beics o Drefriw i'r bont grog dros Afon Conwy ger Llanrwst. Wrth y bont, trowch i'r chwith a thros gamfa sy'n arwain i lwybr ar hyd ymyl yr afon a'r clawdd atal llifogydd. Wrth gymer y Crafnant a'r Conwy (lle mae'r ddwy afon yn cyfarfod), dilynwch y llwybr yn ôl i Drefriw, heibio'r bont droed sydd ar Dro Trefriw 3. **Pellter: 4km / 2.5mi.**